





Iesu o flaen y Sanhedrin (Yr uchel-lys Iddewig)

Mathew 26: 57-67; Marc 14: 53-65; Luc 22: 66-71; Ioan 18: 15-27



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
Mathew 26: 57-67; Marc 14: 53-65; Luc 22: 66-71; Ioan 18: 15-27		
1 Dyma'r rhai oedd wedi arestio Iesu yn mynd ag e i dŷ Caiaphas yr archoffeiriad, lle roedd yr arbenigwyr yn y Gyfraith a'r arweinwyr eraill wedi dod at ei gilydd.		
2 Roedd y prif offeiriaid a'r Sanhedrin (hynny ydy yr uchel-lys Iddewig) yn edrych am dystion oedd yn barod i ddeud celwydd am Iesu, er mwyn iddyn nhw ei ddedfrydu i farwolaeth. Yn y diwedd dyma ddau yn dod ymlaen a dweud, "Dwedodd y dyn yma, 'Galla i dministrio templ Dduw a'i hadeiladu eto o fewn tri diwrnod.'"		
3 Ond ddwedodd Iesu ddim.		

-
- 4 Yna dyma'r archoffeiriad, Caiaffas, yn dweud wrtho, "Dw i'n dy orchymyn di yn enw'r Duw byw i'n hateb ni! Ai ti ydy'r Meseia, mab Duw?"



-
- 5 "Ie," meddai Iesu, "fel rwyf ti'n dweud. Ond dw i'n dweud wrthoch chi i gyd: Rhyw ddydd byddwch chi'n fy ngweld i, Mab y Dyn, yn llywodraethu gyda'r Un Grymus ac yn dod yn ôl ar gymylau'r awyr."



-
- 6 Wrth glywed beth ddwedodd Iesu, dyma'r archoffeiriad yn rhwygo ei ddillad. "Cabledd!" meddai, "Pam mae angen tystion arnon ni?! Dych chi i gyd newydd ei glywed yn cablu. Beth ydy'ch dyfarniad chi?"




-
- 7 Dyma nhw'n ateb, "Rhaid iddo farw!" Yna dyma nhw'n poeri yn ei wyneb ac yn ei ddyrnu a rhoi mwgwd dros ei lygaid. Roedd rhai yn ei daro ar draws ei wyneb ac yna'n dweud, "Tyrd! Proffwyda i ni, Feseia! Pwy wnaeth dy daro di y tro yna?"



-
- 8 Yn gynnar iawn yn y bore, dyma nhw'n penderfynu fod rhaid i Iesu gael ei ddedfrydu i farwolaeth. Felly, dyma nhw'n ei rwymo a'i drosglwyddo i Peilat, y llywodraethwr Rhufeinig.



9 Cyfieithwyd gan
www.beibl.net



www.freebibleimages.org

10

